Y gylchred faetholion mewn coedwig law drofannol

Mae Ffigwr 1 ar y dde yn dangos symudiad maetholion o fewn ecosystem y goedwig law drofannol. Mae maint y cylchoedd a'r saethau yn cynrychioli'r cyfanswm o faetholion sy'n cael eu storio neu sy'n symud.

Mae Ffigwr 2 yn cynnwys amlinelliad o ddiagram cylchred maetholion. Mae'r llinellau toredig yn cynnig dewis o ran maint pob cylch a saeth. (Mae'r cylchoedd a'r saethau a ddangosir gyda llinell barhaol yn cynrychioli'r maint gwreiddiol)

Ewch ati i gwblhau Ffigwr 2 er mwyn dangos sut bydd y gylchred faetholion yn newid yn dilyn datgoedwigo a chlirio'r goedwig gan gwmni 'logio' coed.

a) Dangoswch faint y cylchoedd er mwyn cynrychioli swm y maetholion sy'n cael eu storio yn y biomas, dail marw a'r pridd.

b) Dangoswch faint y saethau er mwyn cynrychioli symudiad y maetholion yn yr ecosystem yn ogystal â mewnbynnau ac allbynnau'r ecosystem.

c) Ym mlychau A - F, ysgrifennwch baragraff byr er mwyn egluro maint y cylch neu'r saeth.

Ffigwr 1. Y gylchred faetholion mewn coedwig law drofannol



Daearyddiaeth TGAU

Ffigwr 2. Y gylchred faetholion mewn coedwig law drofannol yn dilyn datgoedwigo